

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	6,868	2,901	0
Cynlluniau Tai	4,495	1,300	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	2,500	0	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,787	0	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	1,068	2,271	1,700
Atal Llifogydd Arfordirol	1,216	0	0
Cynlluniau Eraill	4,127	1,241	723
Bidiau Cyfalaf	3,063	3,063	500
Cynlluniau Eraill :			
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,549
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	0	0	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoed wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau/Strategaeth Tai	17,089	5,442	0
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	9,722	184	0
Cerbydau Adrannol	4,273	3,042	0
Cynlluniau Eiddo	3,007	0	0
Unedau Diwydiannol	2,925	0	0
Atal Llifogydd Arfordirol	1,822	0	0
Eraill	3,818	400	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,061	4,061	4,061
Benthyca Arall	10,038	3,138	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	16,874	5,430	2,549
Derbyniadau Cyfalaf	189	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	30	0	0
Cronfa Cyfalaf	13,434	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	23,154	7,215	162
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2023/24 i 2025/26, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2023/24 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 ar gyfer 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.